13.5.2021

Manon Wyn James
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880418 / 07887 455572

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# "Fo ydy'r person agosa' at y diafol dwi erioed wedi cyfarfod" - cyfreithiwr y llofrudd Peter Moore yn rhannu ei brofiadau

Sut brofiad yw amddiffyn y llofrudd gwaethaf welodd Cymru erioed? Dylan Rhys Jones, cyfreithiwr ifanc o Abergele fu'n cynrychioli'r llofrudd Peter Moore yn 1996 – achos a gafodd effaith niweidiol tu hwnt ar iechyd meddwl y twrnai ifanc ac a daflodd gysgod ar ei fywyd am flynyddoedd lawer.

Mewn rhaglen ddogfen newydd **Dyn Mewn Du**, fydd i'w gweld ar S4C ar nos Fercher 26 Mai bydd Dylan yn rhannu ei stori bersonol o gynrychioli "dyn peryclaf Cymru".

Cawn glywed am yr alwad ffôn yn Rhagfyr 1995 a newidiodd fywyd Dylan am byth, pan arestiwyd Peter Moore am lofruddio Anthony Davies ar draeth Pensarn ger Abergele. Daeth i'r amlwg yn ddiweddarach ei fod hefyd wedi llofruddio Edward Carthy yn Nghlocaenog, Henry Roberts yng Nghaergeiliog a Keith Randles ar yr A5 yn Ynys Môn.

"'Nes i dreulio bron i flwyddyn yn gweithio ar yr achos, gan ail fyw yr holl drais, clywed pob manylyn a phob cyfaddefiad cignoeth." meddai Dylan

"Roedd yn brofiad gafodd effaith niweidiol iawn ar fy iechyd meddwl i. Fe es i le tywyll iawn, a bron i mi beidio dychwelyd."

Roedd Peter Moore ymhlith y troseddwyr gwaethaf a welwyd yn y Deyrnas Unedig erioed – Fred West, Harold Shipman, The Yorkshire Ripper – roedd perygl mawr y byddai wedi mynd ymlaen i droseddu eto.

Cafodd ei ddedfrydu i oes o garchar yn Nhachwedd 1996 ac mae'n parhau dan glo yng ngharchar Wakefield sydd hefyd yn cael ei adnabod fel *Monster Mansion* ac yn gartref i droseddwyr megis Ian Huntley a Mark Bridger.

"Roedd y pwysau arnai fel cyfreithiwr yn anferth, nid yn unig yn delio gyda'r achos hwn, ond popeth arall oedd yn mynd ymlaen yn fy swyddfa yn Abergele hefyd. Dwi'n meddwl mod i ar fai i raddau am gymryd llawer o'r pwysau ar fy hun, hwyrach oherwydd natur erchyll yr achos. Roedd na bethau mor hyll, mor afiach, mor amhleserus – y lleia' o bobl oedd yn ymdrin â hyn o ddydd i ddydd, y gorau fyddai hynny.

Erbyn i Dylan orffen yr achos roedd wedi blino'n ddifrifol. Roedd y straen yn parhau a'i iechyd yn dirywio.

"Do'n i ddim ishe clywed enw Peter Moore na cael fy atgoffa o Peter Moore. Ro'n i wedi syrffedu ar y gyfraith ac ar bopeth."

"Roedd fy iechyd yn gwaethygu wrth i amser fynd yn ei flaen – ro'n i'n cael *migraines*, flashbacks, blinder a salwch. Ro'n i'n deffro yn ganol y nos yn meddwl fod na rywun yn trywanu fi yn fy nghefn."

"Ro'n i yn cadw'r peth yn hollol guddiedig wrth fy ngwraig, teulu a ffrindiau. Doedd gen i ddim diddordeb mewn unrhyw beth ac fe wnes i golli blas ar fyw. Nes i ddechrau meddwl byddai'n well pe bawn ni ddim yma, a dyna oedd fy nghynllun i."

"Ro'n i di cynllunio pob peth o ran pa raff i'w ddefnyddio ac ro'n i'n mynd i fynd lawr i'r Afon Gele a lladd fy hun yn fan yna."

Fe ffeindiwyd Dylan ar lawr yn y tŷ yn crio a bu'n rhaid i'w wraig a'i ffrind fynd ag e i Ysbyty Glan Clwyd am driniaeth iechyd meddwl.

Wrth edrych yn ôl, dyw Dylan ddim yn adnabod y person yna erbyn hyn. Mae wedi cael y gefnogaeth i allu rhesymu gyda'r hyn ddigwyddodd iddo.

"Fe adawodd Peter Moore graith ar fy is-ymwybod. Mae'n berson drwg, ond does gen i ddim yr egni i'w gasáu."

**Peter Moore: Dyn Mewn Du**
**Nos Fercher 26 Mai 9.00**
**Isdeitlau Saesneg**
**Ar alw: S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Kailash Films ar gyfer S4C**

S4C

Manon Wyn James
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880418 / 07887 455572

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# "He's the closest person to the devil I've ever met" - murderer Peter Moore's lawyer shares his experiences

What is it like to defend the worst killer Wales has ever seen? Dylan Rhys Jones, a young lawyer from Abergele represented the murderer Peter Moore in 1996 - a case that had an extremely damaging effect on the young solicitor's mental health and overshadowed his life for many years.

In a new documentary **Dyn Mewn Du** (Man in Black), to be shown on S4C on Wednesday 26 May, Dylan will share his personal story of representing "the most dangerous man in Wales".

We hear about the phone call in December 1995 that changed Dylan's life forever, when Peter Moore was arrested for the murder of Anthony Davies on Pensarn beach, near Abergele. It later emerged that he had also murdered Edward Carthy in Clocaenog, Henry Roberts in Caergeiliog and Keith Randles on the A5 on Anglesey.

"I spent almost a year working on the case, reliving all the violence, hearing every detail and all the harsh confessions." said Dylan

"It was an experience that had a very detrimental effect on my mental health. I went to a very dark place, and I found it difficult to return. "

Peter Moore was among the worst offenders ever seen in the United Kingdom - Fred West, Harold Shipman, The Yorkshire Ripper – there certainly was a high risk that he would offend again.

He was sentenced to a life in prison in November 1996 and remains locked up in Wakefield prison, which is also known as Monster Mansion and is home to criminals such as Ian Huntley and Mark Bridger.

"The pressure on me as a solicitor was immense, not only dealing with this case, but everything else going on in my office in Abergele as well. I think I'm partly to blame for taking a lot of the pressure on myself, perhaps because of the horrific nature of the case. There were things so ugly, so unpleasant - the fewer people who dealt with this day to day, the better."

By the time the case draw to a close, Dylan seemed to be completely exhausted. The stress continued and his health deteriorated.

"I didn't want to hear Peter Moore's name or be reminded of Peter Moore. I'd had enough of the law and everything else too. "

“My health got worse as time went on - I had migraines, flashbacks, fatigue and illness. I woke up in the middle of the night thinking that someone was stabbing me in the back.

“I kept it completely hidden from my wife, family and friends. I wasn't interested in anything and lost a taste for living. I started thinking it would be better if I wasn’t here, and that was my plan.

"I planned everything in terms of what rope to use and I was going to go down to the River Gele and kill myself there."

Dylan was found down in the house crying and his wife and friend had to take him to Glan Clwyd Hospital for mental health treatment.

In retrospect, Dylan no longer knows that person. He has been given the support to be able to reason with what happened to him.

“Peter Moore left a scar on my subconscious. He's a bad person, but I don't have the energy to hate him. ”

**Peter Moore: Dyn Mewn Du**
**Wednesday 26 May 9.00**
**English Subtitles**
**On demand: S4C Clic, iPlayer and other plaforms**
**A Kailash Films production ar gyfer S4C**